



Awdurdod Cyllid Cymru Welsh Revenue Authority

Swydd Ddisgrifiad

I wneud cais, anfonwch ddatganiad personol (dim mwy na 1200 o eiriau) yn nodi'ch cymelliannau ac yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf isod, i hr@wra.gov.wales.

Teitl y Swydd	Prentis Digidol
Cyflog Cychwynnol Gwirioneddol (gan gynnwys unrhyw lwfansau)	£19,240
Ystod Cyflog	£19,240 - £22,500
Patrwm gwaith	Llawr amser (tra'n gweithio tuag at radd ym Mhrifysgol De Cymru)
Math o gyfle (a hyd y cyfnod os yw'n berthnasol)	Prentisiaeth
Lleoliad y Swydd	Canolfan QED, Trefforest
Yn atebol i	Arweinydd Digidol
Dyddiad ac Amser Cau	Hanner nos ddydd 2 Mehefin
Pwynt cyswllt er mwyn cael rhagor o wybodaeth	anthony.pritchard@wra.gov.wales

Cefndir Awdurdod Cyllid Cymru:

ACC yw'r awdurdod trethi newydd i Gymru, sy'n casglu a rheoli'r trethi Cymreig datganoledig cyntaf ers 800 mlynedd: Treth Trafodiadau Tir (LTT) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Mae'r trethi Cymreig hyn wedi eu llunio yng Nghymru, ar gyfer Cymru. Rydym yn disgwyl codi £1bn dros ein pedair blynedd gyntaf, cyllid a fydd yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG ac ysgolion, ledled Cymru.

Byddwch yn ymuno â sefydliad bach, arbenigol o tua 80 o bobl ar draws 16 o wahanol broffesiynau, ac yn ystod diwrnod arferol byddwch yn gweithio mewn nifer o feysydd a gyda nifer o dimau ar draws ein sefydliad. Rydym yn sefydliad sy'n perfformio'n dda ac mae gennym lefel uchel o ymgysylltiad – gweler ganlyniadau ein Harolwg Pobl diweddaraf [yma](#).

Diben y swydd:

Mae ACC yn sefydliad sydd â'i systemau'n seiliedig yn y cwmwl, sy'n defnyddio gwasanaethau cwmwl PaaS (Platform as a Service) a SaaS (Software as a Service) fel ffordd o gyflawni datrysiadau treth, ariannol a chorfforaethol.

Mae sgiliau Digigol a Thechnoleg yn rhan greiddiol o strategaeth ACC. Uchelgais ACC yw cael mwy o allu digidol ar gyfer rheoli ei brif systemau busnes digidol. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ychwanegu at ein gallu digidol presennol drwy greu tîm bach newydd o weithwyr digidol proffesiynol i ddylunio, adeiladu a gweithredu datrysiadau ACC. Rydym am recriwtio 3 prentis digidol i ymuno â'r tîm newydd.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â'r Rhaglen Prentisiaeth Gradd Ddigidol 4½ mlynedd ym Mhrifysgol De Cymru gan astudio BSc (Anrhydedd) wedi'i ariannu'n llawn mewn Datrysiadau Digidol & Thechnoleg. Mae hyn yn ddelfrydol ar gyfer pobl sydd eisiau gradd, ond sydd eisiau gweithio ar yr un pryd. Byddwn yn eich cefnogi'n llawn drwy eich astudiaethau, yn ogystal â darparu mentor a bydi i chi.

Bydd deiliad y swydd yn rhan o dîm datblygu digidol ACC a bydd yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o dasgau digidol gan gynnwys dadansoddi busnes, datblygu meddalwedd, profi, gweithredu a dylunio meddalwedd.

Tasgau allweddol:

- Dadansoddiad o broblemau busnes
- Dylunio meddalwedd
- Datblygu cod o ansawdd
- Sicrhau bod y cod yn ddiogel o ran natur ei ddyluniad
- Creu a gweithredu cynlluniau prawf
- Defnyddio cod newydd ar gyfer amgylcheddau technegol
- Darparu cymorth ar gyfer systemau digidol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes

Rydym yn recriwtio gan ddefnyddio [Proffiliau Llwyddiant](#). Cliciwch y ddolen am ganllawiau a fydd yn eich helpu i gwblhau eich cais.

Rydym yn chwilio am ymddygiadau, sgiliau a phrofiad pan fyddwn yn recriwtio. Rydym yn chwilio am rai o'r rhain drwy gydol y broses recriwtio, ond efallai mai dim ond ar rai adegau y byddwn yn chwilio am rai eraill. Gweler isod y dystiolaeth y dylech ystyried ei harddangos yn ystod y broses recriwtio (efallai y byddwch hefyd am gyfeirio at y tasgau allweddol a nodir uchod):

	Yn cael ei asesu yn y Datganiad Personol:	Yn cael ei asesu yn ystod cyfweiliad/asesiad:
Ymddygiadau (ar lefel 1):		

Cyflawni ar Gyflymder	✓	✓
Datblygu'r Hunan ac Eraill	✓	✓
Cydweithio		✓
Cyfathrebu a Dylanwadu		✓
Sgiliau: • Sgiliau meddwl rhesymegol a chreadigol • • Sgiliau dadansoddol a datrys problemau • Y gallu i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb • Y gallu i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hunan • Dull trwyadl a threfnus o weithio • Y gallu i weithio gydag amrywiaeth o bobl fewnol ac allanol • Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd • Yr ysgogiad i ddysgu sgiliau a, thechnegau newydd ac i ddechrau eu datblygiad proffesiynol	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓
Profiad: Defnyddio gwybodaeth feddalwedd mewn prosiect yn y cartref, yn yr ysgol neu'r tu allan i astudiaethau	✓	✓
Cymwysterau: O leiaf 3 Safon Uwch gradd C neu uwch, a 5 TGAU (neu gyfwerth) gradd C neu uwch (gan gynnwys mathemateg a Saesneg)	✓	

Gofynion o ran y Gymraeg

Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn asesiad gwrthrychol o'r sgiliau iaith sydd eu hangen er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swydd hon:

Sgiliau Cymraeg	Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol
Darllen	0 = Dim sgiliau
Siarad	0 = Dim sgiliau
Dealltwriaeth	0 = Dim sgiliau
Ysgrifenedig	0 = Dim sgiliau

Lefel fetio at ddibenion diogelwch

Gwiriad Diogelwch

Asesu

Mae asesu'n cynnwys canolfan asesu, lle'r ydym yn profi am y meini prawf a gyhoeddir uchod. Bydd y ganolfan asesu yn cynnwys:

- Gweithgaredd grŵp
- Cyfweiliad
- Byddwn yn profi am gryfderau sy'n berthnasol i'r ymddygiadau drwy gydol y ganolfan asesu. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygwn wrth gryfderau [yma](#).

Byddwch yn cael cyfle i nodi unrhyw ofynion penodol yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohonynt wrth gyflwyno eich ffurflen 'Eich Manylion' ond byddwn hefyd yn gofyn i chi eto cyn y ganolfan asesu.

Sut i wneud cais

I wneud cais, cwblhewch ddatganiad personol (dim mwy na 1200 o eiriau) yn rhoi tystiolaeth o sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf uchod. Bydd angen i chi hefyd gwblhau ein ffurflen 'Eich manylion' er mwyn ein galluogi i sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn deg, ond ni fydd hon yn cael ei rhannu ymhellach na'n tîm Adnoddau Dynol. Mae'r ffurflen 'Eich Manylion' i'w chael [yma](#).

Dylech anfon y ffurflen 'Eich Manylion', a'ch datganiad personol gyda'i gilydd i hr@wra.gov.wales. Er mwyn sicrhau tegwch, ni allwn dderbyn ceisiadau hwyr, felly gofalwch eich bod wedi cwblhau'r tair dogfen.

Gweithio i'r Gwasanaeth Sifil

Gweler [y dudalen hon](#) am fanylion buddion gweithio i ACC.

[Mae Cod y Gwasanaeth Sifil](#) yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan weision sifil.

Rydym yn recriwtio yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel yr amlinellir yn [Egwyddorion recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil](#).

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r egwyddorion recriwtio, a'ch bod am wneud cwyn, dylech gysylltu â phennaeth yr adran Adnoddau Dynol yn hr@wra.gov.wales.

Os nad fyddwch yn fodlon â'r ymateb y byddwch yn ei dderbyn gennym, gallwch gysylltu â [Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil](#).